Rhif: **WG14588**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Diwygiadau i'r rheoliadau ymsefydlu yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **3 Ebrill 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **29 Mai 2012**

# Diwygiadau i'r rheoliadau ymsefydlu yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Yn y ddogfen ymgynghori hon nodir y cynigion ar gyfer y rheoliadau newydd i ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, cynigir i'r Rheoliadau newydd ddod i rym ar 1 Medi 2012. |
| **Sut i ymateb** | Dylid anfon ffurflenni ymateb drwy e-bost i inductioninfo@cymru.gsi.gov.uk (nodwch 'Ymgynghoriad ymsefydlu' yn y blwch testun) neu drwy'r post i'r Tîm Ymsefydlu yn y cyfeiriad isod erbyn **29 Mai 2012**. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn printo bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:<br>Y Tîm Ymsefydlu<br>Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 029 2080 1389<br>e-bost: inductioninfo@cymru.gsi.gov.uk |

© Hawlfraint y Goron 2012
WG14588

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Beth yw’r trefniadau cyfredol ar gyfer ymsefydlu statudol?** **3**

**Pam bod angen newid y Rheoliadau?** **4**

**Pa newidiadau a gynigir i’r rheoliadau ymsefydlu?** **5**

Cyfnodau o gyflogaeth sy’n cyfrif tuag at yr ymsefydlu 5

Goruchwylio ac asesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith 6

Athrawon sy’n cymhwyso y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd/ Y Swistir 8

Canllawiau ymsefydlu drafft 9

## Cyflwyniad

Mynegodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn bwriadu adolygu ymsefydlu statudol yng Nghymru ym mis Chwefror 2011. Diben yr adolygiad hwn yw datblygu ymagwedd gadarn o ansawdd uchel sy'n gyson ar raddfa genedlaethol tuag at ymsefydlu'r holl athrawon newydd gymhwyso ar draws Cymru, a rhoi mwy o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i athrawon llanw gwblhau eu cyfnod ymsefydlu yng Nghymru.

Mae'r adolygiad hwn o'r trefniadau ymsefydlu statudol yn gydnaws â'r gwaith ehangach sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd yn rhan o ddatblygiad y model adolygu a datblygu ymarfer. Nod y model hwn yw sicrhau bod safonau proffesiynol a datblygiad proffesiynol ymarferwyr, a'u rheolaeth ar berfformiad, yn asio i'w gilydd i greu un model cydlynus er mwyn codi safonau addysgu a gwella deilliannau dysgwyr.

Mae'r model adolygu a datblygu ymarfer yn cael ei roi ar waith yn raddol ar draws Cymru mewn cyfres o gamau. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:

- cyflwyno safonau proffesiynol diwygiedig ym mis Medi 2011
- cyflwyno Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 ar 1 Ionawr 2012
- cyflwyno'r cymhwyster proffesiynol cenedlaethol newydd ar gyfer prifathrawiaeth ym mis Rhagfyr 2011.

Bydd y model adolygu a datblygu ymarfer yn parhau i gael ei roi ar waith yn raddol yn ystod 2012, a bydd yn cynnwys:

- cyflwyniad y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol ym mis Medi 2012
- amrywiaeth o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth i gefnogi darpar arweinwyr a phenaethiaid mewn swydd
- creu cronfa ar-lein o adnoddau o ansawdd uchel i gynorthwyo'r holl ymarferwyr gyda'u datblygiad proffesiynol.

## Beth yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer ymsefydlu statudol?

Mae ymsefydlu wedi bod yn ofyniad statudol ar gyfer pob athro/athrawes newydd gymhwyso yng Nghymru er mis Ebrill 2003. Fe'i cyflwynwyd yn gyfrwng i athrawon newydd gymhwyso drosglwyddo o hyfforddiant cychwynnol athrawon i ymarfer proffesiynol effeithiol. Ceir darpariaeth ar gyfer y trefniadau ymsefydlu cyfredol yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1818 (C.146)) ('y Rheoliadau') ac yn y cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd o dan y Rheoliadau.

Cynhelir y cyfnod ymsefydlu fel arfer dros dri thymor llawn (h.y. blwyddyn ysgol), ond rhoddwyd rhywfaint o hyblygrwydd i athrawon sy'n gweithio'n rhan amser neu sy'n cael seibiannau o'u cyflogaeth.

Mae ymsefydlu yng Nghymru yn cynnwys yr agweddau canlynol:

- rhaglen datblygu proffesiynol, monitro a chefnogaeth sy'n seiliedig ar y blaenoriaethau craidd yn y meysydd y gwyddom eu bod yn allweddol er mwyn codi safonau addysgu ac er mwyn gwella deilliannau dysgwyr. Y rhain yw:
  - llythrennedd
  - rhifedd
  - lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad
  - anghenion dysgu ychwanegol
  - rheoli ymddygiad
  - ymarfer myfyriol

- cefnogaeth tiwtor ymsefydlu yn yr ysgol drwy gyfnod y cyfnod ymsefydlu

- gostyngiad o ddeg y cant yn amserlen yr athro/athrawes newydd gymhwyso (nodir y gofyniad hwn yn *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol*)

- asesiad ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith

Er mwyn i gyfnod o gyflogaeth yng Nghymru gyfrif tuag at ymsefydlu statudol, rhaid i athro/athrawes newydd gymhwyso feddu ar statws athro cymwysedig, fod wedi'i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a rhaid iddo fod yn gyflogedig fel athro/athrawes mewn ysgol a gynhelir neu mewn ysgol arbennig nas cynhelir. Caiff sefydliadau addysg bellach ac ysgolion annibynnol hefyd gynnig ymsefydlu statudol os dewisant wneud hynny, ar yr amod y gallant gydymffurfio â phob agwedd ar y Rheoliadau.

## Pam bod angen newid y Rheoliadau?

Er mwyn codi safonau yn ein hysgolion, mae angen inni gynhyrchu athrawon hyfedr a chanddynt wybodaeth drylwyr am amrywiaeth o strategaethau er mwyn gwella deilliannau; sy’n deall y damcaniaethau a’r cysyniadau wrth wraidd strategaethau hyn; ac sydd, o ganlyniad, yn gallu cyflenwi dysgu ac addysgu mwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae’r disgwyliad y gall darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon gynhyrchu athrawon parod am waith, a chanddynt yr holl sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol ar unwaith, yn afrealistig. Gall darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon gynnig sylfaen dda o ran y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn athro/athrawes effeithiol, ond mae angen datblygu a mireinio sgiliau addysgu drwy eu cymhwyso’n ymarferol ar y cyfle cyntaf.

Datgelodd adolygiad Llywodraeth Cymru o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol[1] fod y dull o ddehongli ac o weithredu’r trefniadau ymsefydlu yn amrywio’n helaeth ar draws Cymru. Dangosai hefyd, er bod llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol yn sicrhau profiad o ansawdd uchel i’w hathrawon a oedd newydd gymhwyso, fod eraill yn eu mysg heb nodi anghenion athrawon sy’n newydd i’r proffesiwn, neu heb fynd i’r afael â’r anghenion hynny’n ddigonol.

Un o brif bryderon yr ymarferwyr y buom yn siarad â nhw drwy gydol yr adolygiad oedd diffyg strwythur ar gyfer datblygiad athrawon newydd gymhwyso. Roedd teimlad cryf mai’r defnydd gorau o flwyddyn gyntaf athrawon newydd gymhwyso yn eu swydd fyddai ehangu a manylu ar y sgiliau a’r wybodaeth a enillwyd drwy’r hyfforddiant cychwynnol athrawon yn rhan o raglen ddysgu strwythuredig.

Bydd newidiadau i’r trefniadau cyfredol hefyd yn peri bod ymsefydlu’n fwy hygyrch i athrawon newydd gymhwyso sydd mewn swydd dros dro neu ran amser. Bydd hefyd yn peri bod asesu yn erbyn safonau athrawon wrth eu gwaith yn fwy systematig, trefnus a chyson ar raddfa genedlaethol.

[1]www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/letter/?skip=1&lang=cy

## Pa newidiadau a gynigir i'r rheoliadau ymsefydlu?

- Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at yr ymsefydlu.
- Goruchwylio ac asesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith.
- Athrawon sy'n cymhwyso y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/ Y Swistir.
- Canllawiau ymsefydlu drafft.

### Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at yr ymsefydlu

**Y trefniadau cyfredol**

Yn ôl y rheoliadau ymsefydlu cyfredol, hyd cyfnod ymsefydlu yw tri thymor ysgol. Y cyfnodau o gyflogaeth a all gyfrif tuag at ymsefydlu yw un tymor ysgol; dau hanner tymor sydd, ac eithrio'r gwyliau ysgol, yn dilyn y naill a'r llall; neu gyfnod o gyflogaeth a bennir gan y corff priodol (yn y cyfarwyddyd ymsefydlu cyfredol, nodir cyfnod o oddeutu deg wythnos ar gyfer hyn).

O dan y trefniadau cyfredol, mae'n anodd iawn i lawer o athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael eu cyflogi ar gontract llawn amser, parhaol i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu.

**Y cynigion**

O 1 Medi 2012, rydym yn cynnig newid y cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu. Rydym yn cynnig i'r rheol tri thymor barhau i fod yn berthnasol i'r holl gyfnod ymsefydlu, ond i athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael eu cyflogi am flwyddyn ysgol gyfan, h.y. o fis Medi hyd fis Gorffennaf, caiff y cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu eu mesur mewn sesiynau ysgol[2] yn hytrach na thymhorau ysgol. Gallai cyfnod o un sesiwn ysgol neu fwy gyfrif tuag at ymsefydlu. Byddai'n ofynnol i bob athro/athrawes newydd gymhwyso gwblhau tri chant wyth deg o sesiynau ysgol o leiaf (sy'n gyfwerth â thri thymor ysgol) cyn asesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu.

Yn y model diwygiedig hwn, rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth gyfrif tuag at ymsefydlu, p'un a yw athro/athrawes newydd gymhwyso'n cael ei gyflogi'n llawn amser, yn rhan amser neu yn athro/athrawes llanw byrdymor.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar yr amser lle bydd yn rhaid cwblhau'r ymsefydlu gan y bydd yn rhaid i bob cyflogaeth gyfrif tuag at ymsefydlu o 1 Medi 2012.

[2]Diffinnir sesiwn ysgol fel un bore neu un prynhawn o gyflogaeth.

Ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sydd eisoes yn cyflawni'r ymsefydlu yng Nghymru, byddai'r darpariaethau presennol yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer unrhyw gyfnodau o gyflogaeth cyn 1 Medi 2012.

### Athrawon llanw

Yn achos athrawon llanw, byddent yn gyfrifol am gasglu eu portffolio'u hunain o dystiolaeth yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith, na fyddai'n gymwys i'w gyflwyno i'r corff priodol i'w asesu ond ar ôl cwblhau lleiafswm o dri chant wyth deg o sesiynau ysgol.

Ni chaiff athrawon llanw benderfynu pa gyfnodau o gyflogaeth fydd yn cyfrif tuag at eu hymsefydlu. O 1 Medi 2012, cynigir bod yn rhaid i athro/athrawes llanw fod yn cyflawni ymsefydlu er mwyn addysgu mewn ysgol a gynhelir. O ganlyniad i hyn, bydd sesiwn ysgol ym mhob cyfnod o gyflogaeth yn cyfrif tuag at yr ymsefydlu.

Byddai angen monitro'r system hon yn helaeth, ac rydym yn cynnig bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n ymgymryd â'r rôl honno (er y bydd hyn wedi'i nodi ar ffurf cyfarwyddyd yn hytrach na rheoliadau).

Yn sgil hyn, rydym yn cynnig dileu'r 'rheol pum mlynedd' sy'n cyfyngu ar addysgu llanw ar gyfer athrawon nad ydynt wedi cyflawni'r ymsefydlu i bum mlynedd o'r dyddiad cymhwyso fel athro/athrawes.

### Cwestiynau ymgynghori

1. A ydych yn cytuno y dylid cyfrif, ar ôl 1 Medi 2012, pob cyfnod cyflogaeth o leiaf un sesiwn o hyd neu fwy fel athro/athrawes tuag at gwblhau'r cyfnod ymsefydlu?

2. A ydych yn cytuno na ddylid cyfyngu ar y cyfnod lle mae'n rhaid cwblhau cyfnod ymsefydlu?

3. A ydych yn cytuno y dylid dileu'r cyfyngiad pum mlynedd ar addysgu llanw byrdymor o'r Rheoliadau?

## Goruchwylio ac asesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith

### Y trefniadau cyfredol

Ar hyn o bryd, penaethiaid a'r corff priodol sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth a hyfforddiant athrawon newydd gymhwyso. Ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu, bydd y pennaeth yn cyflwyno argymhelliad i'r corff priodol ynghylch a yw athro/athrawes newydd gymhwyso wedi llwyddo yn ei ymsefydliad, wedi methu ei ymsefydliad, ynteu a ddylid ymestyn ei gyfnod ymsefydlu. Yn yr adolygiad o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), canfuwyd bod ansawdd yr argymhellion a gyflwynwyd gan benaethiaid i'r corff priodol yn amrywio'n

helaeth a bod y penderfyniadau a wnaed, ledled Cymru, gan y cyrff priodol yn amrywio'n helaeth.

**Y cynigion**

Rydym yn cynnig rhoi i'r corff priodol y cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwyliaeth a hyfforddiant cyffredinol yr holl athrawon newydd gymhwyso sy'n cyflawni cyfnod ymsefydlu. Bydd yn ofynnol i'r corff priodol drefnu hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar gyfer yr athro/athrawes newydd gymhwyso, a darparu hyfforddiant perthnasol i gynorthwyo athrawon newydd gymhwyso i gyrraedd y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu. Mewn rhai achosion, lle byddai athrawon newydd gymhwyso'n dewis hynny, byddai'r gefnogaeth a'r hyfforddiant dan sylw'n cael eu darparu gan y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Dylai'r gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir i athrawon newydd gymhwyso gael ei gyflenwi gan unigolion sydd wedi'u dynodi ar gyfer y rôl hon, am eu bod yn gyfarwydd â'r safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith (mentoriaid allanol). Bydd y canllawiau yn mynd i'r afael yn fanylach â'r rôl hon yn y cyfarwyddyd ymsefydlu, ond rhagwelir y bydd cyrff priodol yn cydweithio ar ffurf consortia i drefnu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant dan sylw.

Bydd yn ofynnol i benaethiaid ddarparu cefnogaeth o ddydd i ddydd i athrawon newydd gymhwyso, ac i gydweithio â'r corff priodol i ddatblygu rhaglen ymsefydlu ar gyfer pob athro/athrawes. Ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu (neu ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod ymsefydlu os oes angen) bydd gofyn i'r pennaeth ddarparu tystiolaeth i'r corff priodol o gynnydd yr athro/athrawes newydd gymhwyso yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith, a fydd yn cyfrannu tuag at benderfyniad terfynol y corff priodol.

Bydd y corff priodol yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfynu a yw athro/athrawes newydd gymhwyso wedi cwblhau ei gyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus ai peidio, ynteu a ddylid ymestyn y cyfnod ymsefydlu. Cynigir y dylai rôl y pennaeth i gyflwyno argymhelliad i'r corff priodol gael ei dileu o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, bydd y cyfarwyddyd diwygiedig yn argymell y dylai tystiolaeth a ddarparwyd gan y mentor allanol a'r ysgol gael ei hystyried gan y corff priodol wrth iddo wneud y penderfyniad terfynol.

**Cwestiynau ymgynghori**

4. A ydych yn cytuno mai'r corff priodol a ddylai fod â chyfrifoldeb cyffredinol am y gefnogaeth a'r hyfforddiant a ddarperir i athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod ymsefydlu?

5. A ydych yn cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion ddarparu cefnogaeth o ddydd i ddydd i athrawon newydd gymhwyso a chydweithio â'r corff priodol i ddatblygu'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso?

6. A ydych yn cytuno y dylid dileu o’r Rheoliadau y gofyniad i’r pennaeth gyflwyno argymhelliad i’r corff priodol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu?

7. A ydych yn cytuno y dylai penaethiaid ddarparu tystiolaeth ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu (neu ar unrhyw bryd yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar gais) i’r corff priodol ynghylch cynnydd yr athro/athrawes newydd gymhwyso yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith?

8. A ydych yn cytuno y dylai’r corff priodol wneud y penderfyniad terfynol ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy’n cynnwys yr hyn a ddarparwyd gan yr ysgol a chan y mentor allanol?

## Athrawon sy’n cymhwyso y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir

### Y trefniadau cyfredol

O dan y trefniadau cyfredol, mae athrawon sy’n cymhwyso y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir ac sy’n cwblhau’r cynllun hyfforddiant athrawon seiliedig ar gyflogaeth yng Nghymru yn gymwys i gael eu hasesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith ar yr un pryd a chael eu hasesu yn erbyn y safonau statws athro/athrawes cymwysedig.

### Y cynigion

Rydym yn cynnig diwygio’r Rheoliadau er mwyn i’r trefniadau cyfredol barhau i fod yn berthnasol i’r mwyafrif o athrawon sydd wedi cymhwyso y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Y Swistir. Fodd bynnag, dylai’r athrawon hynny sydd wedi cwblhau cyfnod o hyfforddiant proffesiynol athrawon ac sydd wedi cwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol sy’n debyg i gyfnod ymsefydlu yn y wlad y maent wedi cymhwyso ynddi, gael eu heithrio o’r gofyniad i gwblhau cyfnod ymsefydlu yng Nghymru, a chael eu heithrio o’r asesu yn erbyn y safonau ar gyfer athrawon wrth eu gwaith.

### Cwestiynau ymgynghori

9. A ydych yn cytuno y dylai athrawon a wnaeth gymhwyso y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop/Y Swistir, ac sydd wedi llwyddo i gwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol tebyg i gyfnod ymsefydlu yn y wlad y gwnaethant gymhwyso ynddi, gael eu heithrio o’r gofyniad i gwblhau ymsefydlu yng Nghymru a chael eu hasesu yn erbyn y safonau athrawon wrth eu gwaith?

## Canllawiau ymsefydlu drafft

Mae'r canllawiau statudol a fydd yn cefnogi'r rheoliadau diwygiedig ar gyfer ymsefydlu wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Nod y canllawiau hyn yw ymhelaethu ar y Rheoliadau a darparu'r manylion ynghylch sut y dylid rheoli a chyflenwi ymsefydlu yng Nghymru.

Mae'r canllawiau hyn ar ffurf drafft ar hyn o bryd, felly os oes gennych unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau yr hoffech iddynt gael eu hystyried, nodwch nhw yn eich ymateb i'r ymgynghoriad.